



07.02.2023

Annwyl Riant/Warcheidwad

**Noson Agored Blwyddyn 9
Dydd Mawrth, Chwefror 14^{eg} 2023 – 4yh i 6yh**

Fe'ch gwahoddir yn gynnes i fynychu Noson Opsiynau Blwyddyn 9 ar Chwefror 14^{eg}, lle cewch gyfle i gyfarfod â staff pwnc unigol i drafod dewisiadau posibl eich plentyn. Gwahoddir eich mab/merch i ddod gyda chi ar y noson. Teimlwn fod hyn yn galluogi myfyrwyr i gymryd cyfrifoldeb llawn dros wneud dewisiadau gwybodus am eu dyfodol eu hunain.

Bydd y noson yn dechrau gyda chyflwyniad yn y Neuadd am 4yh yn amlinellu'r broses opsiynau, y dyddiadau allweddol a'r terfynau amser. Bydd cyngor yn cael ei ddarparu a ddylai helpu eich mab/merch i wneud y dewisiadau gorau iddynt hwy a rhoi syniadau i chi ar sut i'w cefnogi yn y broses hon. Bydd Mrs J Ohlsson (Pennaeth Blwyddyn 9), Mrs E Richardson-Mcilveen (Mentor Arweiniol Blwyddyn 9) a Sofia Enston (Ymgynghorydd Gyrfa Cymru) oll ar gael ar y noson os hoffech siarad â nhw.

Os ydych chi'n ystyried peidio â mynychu'r Noson Agored, yna byddwch yn ymwybodol y byddwch yn colli cyfle i siarad a'r athrawon pynciau dewisol i ddysgu am strwythurau, cynnwys, gofynion asesu ac arddulliau dysgu pob cwrs. Mae hyn yn bwysig iawn gan fod gwahanol bynciau yn gweddu i arddulliau dysgu gwahanol ddisgyblion.

Yn gywir

Mrs L Sewell
Pennaeth Cynorthwyol

INSPIRE | SUPPORT | SUCCEED

MORFA DRIVE
CONWY LL32 8ED

+44 (0)1492 593243
+44 (0)1492 592537

INFO@ABERCONWY.CONWY.SCH.UK
WWW.ABERCONWY.CONWY.SCH.UK

YSBRYDOLI | CEFNOGI | LLWYDDO



BUDDSODDWR | INVESTORS
MEWN POBL | IN PEOPLE